



Taith Gerdded y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn Rhandir-mwyn



Afon Tywi



Eglwys Sant Paulinus



Pam Cerdded?

Mae'r daith gerdded brydferth hon o amgylch Gwarchodfa Natur Gwenffrwd/Dinas mewn rhan dawl o Sir Gaerfyrddin. Mae'r warchodfa natur hon a reolir gan yr RSPB yn drysor, ac nid i wylwyr adar yn unig. Mae pedair rhywogaeth nodweddiadol o adar i'w canfod yn yr haf yn y coedwigoedd derw ucheldirol hyn – sef y Gwybedog Brith, Telor y Coed, Pibydd y Coed, a'r Tingoch. Hwn oedd cadarnle olaf y Barcud Coch ar adeg pan gafodd ei erlid bron i ddifodiant ym Mhrydain, ond bellach fe'i gwelir yn rheolaidd yn yr ardal hon ynghyd â'r Hebog Tramor a'r Boda. Mae'r ffordd o Lanymddyfri ar lan afon Tywi yn fendigedig ac mae gan bentrefi swynol Rhandir-mwyn a Chil-y-cwm dafarndai, caffis a swyddfa bost.



Pa mor Hir?

Mae'r daith gyfan yn 3.2 cilometr (2 filltir), gan ddringo a disgyn 104 metr (341 troedfedd).



Pa mor Anodd?

Mae hanner y llwybr a argymhellir dros dir garw, ond mae'r gweddill yn hwylus i'r rhan fwyaf o ymwelwyr. Mae'r rhodfa bren yn eich arwain drwy'r coetir gwern, a'r tu hwnt i'r rhodfa bren mae coetir derw hynafol a rhan uchaf afon Tywi.



Man Cychwyn / Maes Parcio



Trafnidiaeth Gyhoeddus -Llanymddyfri 16 cilometr / 10 milltir




Lluniaeth - X ond mae mannau picnic yn y warchodfa

1 Yn hwyr yn y gwanwyn ac yn gynnar yn yr haf mae'r Gwybedog Brith yn cyrraedd ac yn defnyddio'r blychau nythu ar y naill ochr a'r llall i'r rhodfa bren.

2 Gellir gweld y Siglen Lwyd, y Fronfraith Fach, a'r Siglen Fraith ar lannau'r afon ac ar glogfeini yn yr afon, wrth iddynt chwilio am drychfilod i fwydo arnynt.

Mannau o Ddiddordeb



3 Mae llwybr serth oddi ar y prif lwybr sy'n arwain at Ogor Twm Sion Cati, a ddefnyddiodd y brynau diarffordd hyn am flynyddoedd i osgoi'r awdurdodau. Yn ôl y sôn, arferai guddio mewn ogor yn y bryn hwn.

4 Mae'r coetir derw yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig Cwm Doethie – Mynydd Mallaen. Gelwir y coetiroedd ucheldirol hyn weithiau'n Goetir Derw yr Iwerydd neu'n Goedwig Law Geltaidd. Gan fod y ddaear, y coed a'r creigiau (yn enwedig ar y llethrau gogleddol) yn llaith drwy'r flwyddyn, mae hynny'n ffafrio bywyd planhigol fel Cennau a Bryoffytau, ac mae rhai ohonynt yn brin.

5 Mae rhan uchaf afon Tywi yn rhaedru dros gymysgedd o glogfeini mawrion cyn plymio i

bwll dwfn lle mae'n ymuno ag afon Doethie - golygfa hynod drawiadol pan fydd llif.

6 Mae'r llethrau deheuol mwy heulog yn garped glas o glychau'r gog yn y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf.

7 Ger y maes parcio saif Eglwys Sant Paulinus, sy'n adeilad rhestredig Gradd 2, y credir ei bod yn dyddio'n ôl i 1617 ac wedi'i hailadeiladu yn 1821. Mae'r gloch yn dyddio'n ôl i 1897.

8 Llai na 2 gilometr i ffwrdd ar ddiwedd y ffordd y mae wal argae drawiadol cronfa ddŵr Llyn Brienne, a cheir coedwigoedd pinwydd helaeth ar bob llaw (maes parcio ar gael).

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com